

## Tasg 1

# Y Drws i Uffern, Turkmenistan

### Darllen a deall

1. Gorffennwch y brawddegau hyn:

a.	Mae rhan gyntaf y gerdd yn .....	
b.	Mae ail ran y gerdd yn .....	
c.	Mae trydedd ran y gerdd yn .....	

2. Gwnewch restr o'r geiriau allweddol yn y gerdd (dewiswch bump neu chwe gair). Pam rydych chi wedi'u dewis nhw?

3. Beth yw neges y gerdd? Ydych chi'n cytuno â hi? Allwch chi feddwl am ragor o enghreifftiau tebyg o'r un fath o sefyllfa?

Ewch i'r tudalen nesaf.

4. Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol:

**idiom**

**ailadrodd**

**cymhariaeth**

**defnyddio dau ansoddair tebyg o ran eu hystyr**

**gosod dau beth gwahanol wrth ei gilydd er mwyn creu effaith**

Ydy'r rhain yn effeithiol? Pam?

5. Edrychwch ar batrwm y gerdd.

- Pa fath o gerdd yw hi – cerdd rydd, neu gerdd mydr ac odl?
- Sawl sillaf sydd ym mhob llinell?
- Beth yw patrwm yr odlau?
- Ydy'r odlau'n rhai **acennog** (e.e. mawr, agosáu) neu'n rhai **diacen** (e.e. cyfle, digon)?
- Beth yw mantais defnyddio llinellau hir wrth ysgrifennu cerdd?

6. Chwiliwch ar y we am y Drws i Uffern, neu '*Gates of Hell*' / *Darvasa gas crater*, Turkmenistan, i gael rhagor o wybodaeth ffeithiol, er enghraifft:

i) Beth yw maint y ceudwll?

ii) Pa fath o nwyon sy'n cael eu gollwng?

iii) Rhagor o fanylion am beth ddigwyddodd yn 1971:

- Paratowch gyflwyniad llafar byr (fel grŵp) i ddweud wrth eraill am y wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu.

Beth yw effaith amgylcheddol y Drws i Uffern yn eich barn chi?

7. Dychmygwch eich bod chi yno yn 1971, yn gweld y rig yn cwmpo i mewn i dwll enfawr yn y ddaear. Ysgrifennwch ddarn byr yn disgrifio hyn, sut penderfynoch chi mai rhoi'r nwyon ar dân oedd y peth gorau i'w wneud, a'ch barn erbyn hyn.

8. Mae'r gerdd hon yn **adrodd stori**. Yn wreiddiol mewn llenyddiaeth Gymraeg ac ieithoedd eraill, adrodd stori roedd barddoniaeth yn ei wneud bob amser. Chwiliwch am enghreifftiau eraill o gerddi (Cymraeg neu ieithoedd eraill) sy'n gwneud yr un fath.

- Pa fath o lenyddiaeth sy'n cael ei defnyddio i adrodd stori erbyn hyn?
- Beth mae barddoniaeth yn ei wneud heddiw gan fwyaf?
- Meddyliwch am hanesyn neu chwedl leol y gallech chi ei throi'n benillion i adrodd y stori. Beth am wneud hynny?  
Efallai bydd angen copi o *Yr Odliadur* arnoch chi – pam?